Town Clerk:
Ms C.A .Paterson

Technical Officer:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824413

Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Hen Neuadd y Sir,Llandeilo ar ddydd Mawrth 17eg Mehefin 2003 am 7.30pm.

Presennol: Cynghorwyr: Cyng. D.A. Jones (Maer), Cyng. S. Burge, Cyng. K.Day, Cyng. G.Price, Cyng. C.Jenkins, Cyng. C. Cooper, Cyng. R.Bellamy.

Arall: Colette Paterson (Clerc y Dref), R. H. Griffith (Swyddog Technegol), Cynghorydd Sir I. Jones, Sgt Neil Jones (Sarsiant Heddlu Llandeilo)

5773: Ymddiheuriadau : Cyng. D. Williams, Cyng. H. Ladd-Lewis, Cyng. I. Gwyn, Cyng. R. Davies.

5774: **Materion yr Heddlu**. Ymunodd Sgt Neil Jones â'r cyfarfod a chyflwyno ei hun fel Sarsiant Newydd yr Heddlu yn Llandeilo. Mae wedi dod o Gaerfyrddin ond mae hefyd wedi gweithio yn Llanymddyfri ac y mae'n credu fod y ddwy dref â materion tebyg i'w gilydd. Daw â pheth gwybodaeth o'r problemau a'r materion sy'n wynebu pobl Llandeilo gyda ef. Pwysleisiodd y Maer bwysigrwydd y cydweithio agos rhwng y Cyngor Tref a'r Heddlu a'r pwysigrwydd o gynrychiolaeth yr heddlu mewn cyfarfodydd hyd yn oed petai dim ond yn ymddangos yn y cyfarfod am ychydig amser i gyfnewid gwybodaeth. Dywedodd Sgt Jones y byddai'r heddlu yn gwneud eu gorau i fynychu'r cyfarfodydd ond byddai'n rhaid i'r Cyngor ddeall petai neb yn medru dod i'r cyfarfodydd oherwydd pwysau gwaith.

Cododd y Cyng. D.A. Jones y mater o draffig yn Stryd Rhosmaen. Dywedodd fod y mater o bryder mawr i bobl y dref. Y gofid pennaf oedd y pryder o gyflymder ac amlder y cerbydau trwm yn enwedig drwy'r brif stryd gul ac i lawr tua'r ysgolion. Mae llawer o bobl wedi cael ei taro gan ddrychau ystlys wrth iddynt gerdded ar y palmentydd. Cafodd y mater gefnogaeth yr heddlu ac argymhellodd Sgt. Jones i'r Cyngor i geisio cynnal cyfarfod safle gyda phobl sydd â diddordeb. Cyflwynodd y Cyngor fideo i Sgt. Jones a gafodd ei gynhyrchu i fynegi graddfa'r broblem. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi gwneud sawl ymgais i argyhoeddi Sue Essex yn y Cynulliad

Cenedlaethol, gan bwysleisio pa mor bwysig oedd hi fod y dref yn cael ffordd osgoi. Yn hytrach na sefydlogi, mae niferoedd y cerbydau trwm sy'n defnyddio'r ffordd yn cynyddu yn araf.

Penderfynnodd y Cyngor ddilyn cyngor Sgt. Jones ac ysgrifennu at T. Sage yn Adran Briffyrdd y Cynulliad Cenedlaethol i geisio trefnu cyfarfod i bawb sydd â diddordeb /ynghlwm wrth y mater. Dylai hyn gael ei gynnal ar amser pan fo'r traffic ar ei brysuraf i fynegi y perygl a'r anawsterau.

Diolchwyd i Sgt Jones am ei amser a gadawodd y cyfarfod.

5775: Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol o'r Cyngor Llawn (Ebrill 15fed 2003, Cyfarfod arbennig 7fed Mai 2003, 20fed Mai 2003). Gofynnwyd i'r cyngor edrych ar y cofnodion er mwyn cywirdeb.

Cynigiwyd hwy fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd gan y Cyng. S. Burge ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. C. Jenkins. Pasiwyd gyda phawb o blaid.

5776: Materion sy'n codi – 5732 – mewn trefn er mwyn symud ymlaen â Gwefan y Dref -

Cynigiwyd bod y Cyngor yn mynd ymlaen gyda awgrym y Cynghorydd Bellamy a sicrhau dyfnbrisiau a darganfod faint y byddai'n costio i gwmni masnachol osod a rhedeg Gwefan y Dref. Y Cyng. Bellamy i ddarparu a pharatoi'r manylion i safle tebyg yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn ac mi fyddai sefydlu'r safle yn cael ei roi allan ar dendr. Cynigiwyd gan y Cyng. C. Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. K. Day a phasiwyd gyda pawb o blaid. EITEM I'W ROI AR AGENDA'R CYFARFOD NESAF O'R CYNGOR LLAWN.

5777: Trywydd y Dref – Gwella'r Dref – Yn dilyn cyfarfod rhwng y Cyng. D.A. Jones a chyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Archeolegol, disgrifiodd y Cynghorydd Jones y gwaith y mae'r ymddiriedolaeth wedi gwneud yn barod yn dylunio, gwneud ac adeiladu arwyddion treftadaeth i drefi eraill. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth ddiddordeb mewn darparu o leiaf yr hyn mae trefi mewn ardaloedd eraill wedi cael eisoes. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth yr hoffent gynnwys y Siambr Masnach a'r Gymdeithas Gymunedol wrth roi cynnig at ei gilydd i sefydlu Trywydd i'r Dref a phaneli i hybu hanes amgylchedd y dref ar gyfer y llu o ymwelwyr sy'n ymweld. Cafodd ei nodi fod Grant Treftadaeth y Loteri i'w cael i brosiectau fel hyn.

Cyng. D.A.Jones a 'r Cynghorydd Sir I.Jones i gwrdd gyda'r Swyddog Grantiau yn Nghyngor Sir Caerfyddin i drafod sut i fynd ymlaen â cais fel hwn. Cytunodd y Cyngor i roi cefnogaeth llwyr i geisiadau fel hyn. Cynigiwyd hwn gan y Cyng. C. Cooper ac fe'i eiliwyd gan Y Cyng. K. Day, roedd pawb o blaid..

5778: Cofnodion Cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 7fed Mai 2003 a 4ydd Mehefin 2003. – Dywedodd y Cyng. D. Bellamy y dylai Cofnod 5743 ddatgan fod y Pwyllgor Cyllid wedi cytuno y dylai gwaith y Clerc gael ei gadw ar 13 awr yr wythnos am dri mis arall.

Dywedodd y Cyng. Jenkins yn ychwanegol i gofnod rhif: 5740 fod Cymdeithas y Sgowtiaid wedi dod i ben. Hefyd yn y cyfarfod cymeradwyodd y Cyngor y taliad o £14.00 am ddefnyddio'r Neuadd Ddinesig. Yn ogystal â thaliad i'r Clerc am y cost o dorri set o allweddi sbâr fel a gofnodwyd cynt.

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 7fed Mai a Mehefin 4ydd 2003 fel cofnod cywir o'r cyfarfod a bod y Pwyllgor Llawn yn derbyn gweithredoedd ac argymhellion y Pwyllgor. Cynigiwyd gan y Cyng. R. Bellamy, ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. C. Jenkins ac fe'i derbyniwyd gyda phawb o blaid.

5779: Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredionol a gynhaliwyd ar7fed Mai 2003 a 4ydd Mehefin 2003

Derbyniwyd Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Mai 2003 a 4ydd Mehefin 2003 fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd; a derbyniodd y Cyngor Llawn weithredoedd ac argymhellion y Pwyllgor. Cynigiwyd gan Cyng. C. Jenkins ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. S. Burge ac fe'i derbyniwyd gyda phawb o blaid.

5780: Cafodd cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eu symud ymlaen i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf er mwyn cadarnhad.

5781: Materion sy'n codi o Gofnodion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyffredinol.

5766 – fe ddylent ddarllen £2757.00 ac nid £2797.00

5763 – yn ychwanegol cytunwyd i dalu rhent am y Neuadd Ddinesig am £14.00 a £100.00 am Delynores yn y derbyniad Dinesig o gyfrif y Maer.

Y Maer i ddyfeisio geiriau i'r plac pres y tu allan i Hen Neuadd y Sir, wedyn y Swyddog Technegol i gomisiynu arwyddion Myrddin ac i'w gwneud ac i'w gosod.

5782: Y Goleuadau Nadolig. Dywedodd y Cynghorydd Sir I. Jones ei fod wedi holi Mr. Bannister o'r Adran Parciau a Hamdden (T Nant, Llanelli) yngl n â'r Goleuadau Nadolig. Roedd yn falch i ddweud fod y Cyngor Sir wedi cynnig ychydig o gymorth i'r Cyngor Tref gyda'r Goleuadau Nadolig.

Y Clerc i ysgrifennu at Mr. Bannister - yn dilyn y sgwrs gyda'r Cynghorydd Sir I. Jones, i weld beth yn union y gallai'r Cyngor Sir wneud i helpu'r Cyngor Tref i wella a rhoi'r Goleuadau Nadolig i fyny.

5783: C n yn Baeddu – Cafodd y Maer gyfarfod gyda Paul Morris o Adran Amgylchedd y Cyngor Sir. Dywedodd Mr Morris fod y Cyngor Sir wedi dechrau ar ddull tri cham i ddelio â'r broblem o G n yn Baeddu. Y cyntaf oedd *Addysg,* mae'r Cyngor wedi gosod rhybuddion, toiledau i g n a siarad â'r cyhoedd. Roedd y Maer o'r farn nad oedd y cam hwn wedi'i weithredu'n llawn eto, ond y cam nesaf, cam 2, oedd i ddynodi'r perchnogion c n hynny oedd yn troseddu'n barhaus ac y byddai'r Cyngor Sir yn anfon llythyr o rybudd atynt. Cam 3 – pe na bai'r llythyron o rybudd yn cael unrhyw fath o rybudd, yna byddai troseddu parhaus yn golygu dirwyo ac erlyn. Dywedodd y Cyng. Price fod angen edrych ar y Dref yn ei chyfanrwydd a bod yn fannau o hyd lle byddai toiledau c n yn ddefnyddiol gan nad oes digon o amgylch y dref o hyd.

Cyng. Price i ddynodi lleoliadau posibl ar gyfer mesurau atal c n rhag baeddu megis rhybuddion a Thoiledau C n.

Peintio Hen Neuadd y Sir – Roedd y Swyddog Technegol wedi bod mewn cyswllt gyda'r Contractwyr i weld pa fath o baent fyddai'n cael ei ddefnyddio. Mae'r ddau yn defnyddio paent sydd â gwarant o 10 i 15 mlynedd (yn ddibynnol os yw'n llyfn 15 mlynedd a garw 10 mlynedd). Argymhellwyd eu bod yn defnyddio'r paent llyfn.

Cynigiwyd bod y Cyngor yn derbyn y dyfynbris gan Gimlets ac i'r Swyddog Technegol ofyn i'r gwaith gychwyn cyn gynted â phosibl. Cynigiwyd gan y Cyng. K. Day eiliwyd gan y Cyng. C. Jenkins. Pawb o blaid.

5784: Prosiect Ffordd yr Orsaf. Mae atborth oddi wrth y Siambr Fasnach a'r Gymdeithas Gymunedol wedi awgrymu fod pobl o blaid y prosiect hwn ac y gallai'r Dref fod yn unfrydol wrth fynd ymlaen gyda'r prosiect.
Roedd y Cynghorydd Sir I. Jones wedi cysylltu gyda Mr J. Tiller 'Network Rail' ym Mhenarth, Caerdydd, ac roedd yn ceisio paratoi'r ffordd ar gyfer mabwysiadu'r ffordd a'r ffyrdd dynesu. Rhoddodd gopi o'r llythyr yr oedd wedi'i ysgrifennu i'r Clerc gan nodi ei fod yn sefyll am ymateb. Ystyriaeth arall mewn perthynas â'r prosiect oedd yr angen am barc bysiau sy'n ymweliad â'r Dref.

5785: Gerddi yn y Cilgant. Mae'r rhagolygon ar gyfer gerddi hyn yn dda. Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno ar lafar y byddai ein cynnig o £2600.00 yn sicrhau prynu'r ardd a bod llythyr ysgrifenedig i'r perwyl hwn i ddilyn.

Mae Cynigion Ysgrifenedig ar gyfer yr un symiau bellach i'w hanfon at Mr T. Lloyd a Mr R. Beynon. Trafodir y goblygiadau cyfreithiol y gwerthu a'r cyfreithwyr fydd yn cael eu defnyddio i wneud y gwaith yng Nghyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio.

5786:Rhybudd o Gynnig Gan I Gwyn:

Ar dudalen 1a ar ôl Rheolau Sefydlog 5. Rhowch y Rheol Sefydlog newydd 5a.

Swyddog Ariannol Cyfrifol

Clerc y Dref fydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol. Felly, ef neu hi fydd yn cadw'r llyfrau a materion ariannol y Cyngor mewn modd sy'n ofynnol gan Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio 1996 (fel y diwygiwyd), ac yn unol gydag unrhyw rheoliadau ariannol a mabwysiadwyd gan y Cyngor.

Symudwyd y Rhybudd o Gynnig at Rheolau Sefydlog. Cynigiwyd gan y Cyng. Cooper ac Eiliwyd gan y Cyng. R. Bellamy, pawb o blaid.

Roedd y rhybudd arall o gynnig yn ymwneud â cael cworwm:

Argymhellwyd ei fod yn mynd at gyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn. Cynigiwyd gan y Cyng. Jenkins, ac eiliwyd gan y Cyng. K. Day.

5787: Adroddiadau o Gyfarfodydd a fynychwyd. Dywedodd y Cyng. Jenkins fod yna gyfarfod o Gr p Llywio'r Neuadd Ddinesig ar ddydd Mawrth 24ain Mehefin am 7.00pm. Croeso i bawb fynychu. Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddydd Iau 10fed Gorffennaf 2003.

Adroddiadau'r Maer: Wnaeth y Maer fynychu ac agor Te'r WI gan gynnig rhodd o £50.00.

Clerc y Dref i fynychu seminar ar Asesu Perygl i'w gynnal ar ddydd Iau 26ain Mehefin 2003, gan 'Zurich Insurance' ar gost o tua £70.00.

5788: Cyfieithu ar y pryd. Yn dilyn cyfnod prawf o dri mis, gofynnwyd i aelodau o'r Cyngor oedd yn bresennol i ymateb yngl n â'r hyn yr oeddynt yn ei deimlo am ddefnyddio offer cyfieithu ar y pryd. Roedd y Cyngor yn awyddus i ddilyn cynllun iaith Gymraeg a ddarparwyd gan y Cyng. Williams, ac yn llwyr gefnogi'r awgrym am gyfieithu'r cofnodion. Serch hynny, oherwydd anawsterau ymarferol mae o leiaf un aelod o'r Cyngor yn methu'n llwyr â dilyn y trafodaethau gyda'r offer cyfieithu ar y pryd ac roedd amryw o'r lleill yn gweld yr agweddau technegol yn anodd. Felly penderfynwyd peidio 1 defnyddio cyfieithu ar y pryd ar hyn o bryd, er eu bod yn ei gefnogi mewn egwyddor.

Roedd y Cyngor yn cytuno y dylid Cyfieithu cofnodion y Cyngor Llawn a'r Pwyllgorau. Y Clerc i gael manylion o'r costau cyfieithu ac i ofyn i Dewis am gyfieithu'r Cofnodion. Bydd y Clerc yn anelu at gael y cofnodion yn barod i'w cyfieithu wythnos cyn pob cyfarfod o'r Cyngor Llawn. Cynigiwyd gan y Cyng. Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. S. Burge. Pawb o blaid.

Clerc y Dref i ddechrau ar Gwrs Dysgu Cymraeg y mis Medi ac i gydlynu gyda'r Cyng. Bellamy, Shan Merlys yn y Ganolfan Addysg Gymunedo.

5789:Parcio Ceir. Wnaeth y Cyng. Sir I. Jones drafod cyflwyno'r taliadau dadleuol gan unwaith eto godi'r materion ynghylch elw a materion cyfreithiol mewn perthynas â'r ardal y tu ôl i'r siopau yn Stryd Rhosmaen. Mae hwn yn fater sydd ar fynd ac mae'r adran gyfreithiol yn edrych i mewn i hyn. Bydd y lobio'n parhau.

5790: Cyfarfodydd i'r Dyfodol. Mae'r Maer wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Cyngor Sir mewn perthynas â lleoliad cyfarfodydd i'r dyfodol.

Ar gyfer pedwar o gyfarfodydd y Cyngor Llawn, Gorffennaf, Medi, Hydref, Tachwedd, bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Adeiladau'r Cyngor yn Heol Cilgant.

5791: Gohebiaeth. Roedd gohebiaeth wedi'i osod allan i cyn y cyfarfod er mwyn i aelodau gael ei weld.

Pentref y flwyddyn i'w lanw gan y Clerc a'i anfon yn ôl. Trwydded Radio i'w llanw gan y Clerc a'i anfon yn ôl.

5792: Mae'r Clerc wedi trefnu'r gwaith o dalu ei chyflog hi a'r Swyddog Technegol. Mae'r Clerc wedi rhannu'r lwfans ar gyfer defnyddio swyddfa gartref, gan y byddai hyn yn gwneud y gwaith o gadw cyfrifon yn haws. Wnaeth y Clerc ddatgan bod bod y taliad cychwynnol yn y presept o £11230.02 wedi ymddangos.

Cynigiwyd talu'r cyflogau gan y Cyng. Price, ac eiliwyd gan y Cyng. Jenkins, ac roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.24 pm.